Ken Skates AC/AM
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith**
**Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Holl Aelodau'r Cynulliad

26 Hydref 2017

Annwyl Aelod,

Yn dilyn ymrwymiad a wnes ar 11 Hydref, ysgrifennaf atoch i roi data ichi ar gyfraddau methiant busnesau.

Mae'r tabl a ganlyn yn dangos perfformiad Cymru mewn perthynas ag ardaloedd eraill o'r DU.

| | **1 flynedd** | **2 flynedd** | **3 blynedd** | **4 blynedd** | **5 mlynedd** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **(Blwyddyn dechrau - 2014)** | **(Blwyddyn dechrau - 2013)** | **(Blwyddyn dechrau - 2012)** | **(Blwyddyn dechrau - 2011)** | **(Blwyddyn dechrau - 2010)** |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 92.3 | 74.7 | 60.4 | 49.6 | 40.7 |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 92.8 | 74.4 | 59.4 | 49.5 | 39.9 |
| Swydd Efrog a Humber | 91.4 | 74.6 | 58.8 | 49.8 | 40.8 |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 93.3 | 75.5 | 60.8 | 50.8 | 41.9 |
| Gorllewin Canolbarth Lloegr | 92.2 | 75.3 | 60.2 | 51.4 | 41.3 |
| Dwyrain Lloegr | 93.1 | 76.8 | 61.5 | 52.8 | 43.1 |
| Llundain | 90.9 | 73.0 | 55.4 | 48.6 | 39.3 |
| De-ddwyrain Lloegr | 93.2 | 76.9 | 61.1 | 53.0 | 43.4 |
| De-orllewin Lloegr | 92.9 | 76.8 | 61.8 | 53.3 | 44.2 |
| Cymru | 92.4 | 74.8 | 60.4 | 50.3 | 40.7 |
| Yr Alban | 92.4 | 76.6 | 62.0 | 53.2 | 41.4 |
| Gogledd Iwerddon | 86.0 | 67.0 | 56.8 | 51.7 | 40.4 |
| DU | 92.2 | 75.0 | 59.4 | 51.0 | 41.4 |

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Y gyfradd goroesi 5 mlynedd ar gyfer mentrau a sefydlwyd yn 2010 ac a oedd yn dal i weithredu yn 2015 oedd 40.7 y cant yng Nghymru. Roedd y ffigur hwn ychydig yn is o gymharu â chyfradd goroesi'r DU o 41.4 y cant. Roedd y gyfradd goroesi 5 mlynedd uchaf i'w gweld yn ne-orllewin Lloegr (44.2 y cant), a'r gyfradd isaf i'w gweld yn Llundain (39.3 y cant).

Y gyfradd goroesi 1 mlynedd ar gyfer mentrau a sefydlwyd yn 2014 ac a oedd yn dal i weithredu yn 2015 oedd 92.4 y cant yng Nghymru. Roedd y ffigur hwn ychydig yn uwch o gymharu â chyfradd goroesi'r DU o 92.2 y cant. Roedd y gyfradd goroesi isaf (86.0 y cant) i'w gweld yng Ngogledd Iwerddon, a'r gyfradd uchaf (93.3 y cant) yn nwyrain canolbarth Lloegr.

Rydym yn ymdrin â channoedd o fusnesau bob blwyddyn, a'r gwir amdani yw bod rhai busnesau yn llwyddo ac eraill yn methu. Mae synnwyr yn dweud bod hyd yn oed busnesau da yn ei chael hi'n anodd o bryd i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio bod pob busnes yn dechrau fel busnes newydd, ac os ydym am eu helpu, mae’n rhaid inni fod yn barod i gymryd risgiau. Er bod sawl busnes wedi methu ar hyd y ffordd, mae ein cymorth yn helpu i alluogi twf yn ein heconomi.

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi entrepreneuriaid, microfusnesau, a busnesau bach a chanolig, yn ogystal â mentrau cymdeithasol. Felly, rydym yn buddsoddi £86 miliwn hyd at 2020 i sicrhau bod gan fentrau a busnesau yng Nghymru yr wybodaeth, yr arweiniad a'r cymorth busnes sydd eu hangen arnynt drwy raglenni a ariennir gan Ewrop, Busnes Cymru a Busnes Cymdeithasol Cymru.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gamau a fydd yn cefnogi busnesau i dyfu, yn gwella ein seilwaith, a hefyd yn helpu i wella'r hinsawdd economaidd yng Nghymru.

Yn gywir,

Ken Skates AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a’r Seilwaith
Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure